**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 y.h. Nos Fawrth 19 Hydref 2021.**

**Presennol:** Cynghorydd Dyfed Williams – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Celfyn Furlong, Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, Gordon Owen a Lowri Owen,

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. William Victor Owen, Sharon Parry, Beryl Salisbury ac Einir Thomas.

2. **Datganiad o ddiddordeb – dim**

3. **Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol -** Derbyniwyd fod y cofnodion 21 Medi 2021yn gywir - (Cynnig Cyng. Celfyn Furlong, eilio Cyng. Gwilym O. Jones.)

4. **Materion yn codi o'r cofnodion**

4.1 Cae Chwarae: Roedd yr arwynebau diogelwch dal angen sylw. Cysylltodd Cyng. Gwilym Jones y Cyngor Sir am yr offer a addawyd gan y cwmni Kenton Jones a dywedwyd wrtho mai'r arferiad oedd bod y datblygwr yn gyfrifol am y tai am y flwyddyn gyntaf a bod y Cyngor Sir yn dal canran o werth y contract yn ôl hyd at ddiwedd y cyfnod hwnnw. Dadl Kenton Jones oedd gan fod y contract adeiladu yn parhau i redeg tan Chwefror 2022, fod ganddyn nhw tan ddiwedd y cyfnod hwnw i orffen yr holl waith. Roedd y Cyngor Sir wedi mynegi eu siom eu bod wedi cymryd yr agwedd yma ac wedi gofyn iddynt ailystyried. Dywedwyd hefyd na fydd CSYM yn rhyddhau'r taliad terfynol nes bod popeth wedi'i orffen yn foddhaol.

4.2 Llwybrau - Cytunwyd i dorri llwybr rhif 5 -Tyn Rhos / Tyn main, llwybr rhif 28 -Tros Lon / Llyn Dinam a llwybr rhif 16 heibio'r eglwys yn Llanfihangel yn Nhowyn. Roedd y clerc wedi derbyn cwyn am lwybr rhif 23 ond roedd angen edrych ar hwnnw eto.

4.3 Hysbysfwrdd – Cafwyd cadarnhad gan Y Parchedig (Arweinydd Squadron) Mike Hall ei fod hapus i rannu hysbysfwrdd gyda'r Cyngor Cymuned ar dir yr Eglwys yn Llanfihangel yn Nhowyn ond byddai'n rhai i'r Cyngor ei brynu a'i osod. Er mwyn symud ymlaen roedd yn ofynnol i'r Cyngor gwblhau ffurflen datganiad dull (oedd yn 8 tudalen) a chynnal sgan ddaear ar y safle i sicrhau nad oedd beddi yno. Cytunwyd y gallai hyn fod yn gostus iawn. Gofynnwyd i'r clerc ail edrych ar yr opsiwn i godi arwydd ar y tir wrth ochr yr Eglwys oedd ym mherchnogaeth y Cyngor Sir.

4.4 Materion Traffig / Parcio - Gwnaed cais am linellau melyn dwbl ar yr A5 wrth y neuadd. Dywedodd Cyng. Gwilym O. Jones ei fod wedi trefnu ymweliad safle i drafod y pryderon a godwyd gan drigolion yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Medi a bod y Cyngor Sir wedi cytuno i greu mannau pasio newydd ar y lôn heibio Cerrig Iago tuag at y Môr Mewndirol. Gofynnwyd hefyd am olau stryd ar y gyffordd i Ffordd Cymyran ond nid oedd cyflenwad trydan yno i gefnogi hyn.



Arwyddwyd ………………………………………Cadeirydd.

4.5 Unrhyw fater arall yn codi o’r cofnodion
Adeilad y Sportsman – Roedd llystyfiant o'r eiddo yn tresmasu ar y palmant – roedd y clerc am reportion hyn.

**5. Materion Plwyfol**

5.1 Bwrdd Gofalwyr Tywyn Trewan – Roedd y Cyngor Sir wedi trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb yn adeilad Sioe Môn ar 18.10.2021i drafod materion a godwyd parthed traeth Cymyran. Roedd yn ofynol i bob mynychwr gan gynnwys sawl uwch swyddog o’r Cyngor Sir a chynrychiolwyr o'r Cyngor Cymuned gymryd prawf LFT Covid cyn mynychu cyfarfod. Gan mae’r Bwrdd Gofalwyr oedd wedi gofyn am y cyfarfod a chynnig y safle fe ofynnwyd iddynt a oeddent yn barod i newid y cyfarfod i fod yn un rhithiol gan fod pryder gan nifer o ran cwrdd wyneb yn wyneb tra bod ffigyrau Covid-19 yn parhau yn uchel.
O ganlyniad fe hysbyswyd y Cyngor Cymuned fod y cyfarfod wedi ei ganslo nes bod y sefyllfa Covid 19 yn gwella.

**6. Penderfyniadau Cynllunio**

6.1 FPL /221/264 Glyn, Cymyran Road, Caergeiliog - caniatâd

**7. Ceisiadau Cynllunio**

7.1 **FPL/2021/321 Heather Bank, Fali/Valley**
Cais llawn ar gyfer codi modurdy ar wahan - Dim gwrthwynebiad, ond os cytunir dylid nodi nad yw’r adeilad i gael ei ddefnyddio at ddibenion preswyl.
Cofrestr Gyhoeddus

7.2 **D56/2021/8 Fferm Ty Mawr, Y Fali**
Cais ar gyfer gosod twr telathrebu 15m, antenau, cypyrddau offer ar y ddaear a datblygiad cysylltiedig - dim sylwadau.
Cofrestr Gyhoeddus.

7.3 **FPL 2021/255 Craig Eithin, Caergeiliog**
Cais llawn ar gyfer cadw defnydd presenol y modurdy fel uned wyliau hunangynhaliol – dim sylwadau. Cofrestr Gyhoeddus

7.4 **HHP/2021/317 Trewan House, Bryngwran, Caergybi/Holyhead**
Cais llawn ar gyfer adeiladu anecs newydd - Yr oedd yr eiddo eisoes wedi'i ymestyn yn sylweddol, os oedd y cais i'w gael ei gytuno, byddai'r Cyngor yn gofyn i’r swyddogion rhoi cyfyngiadau ar ei ddefnydd h.y. ni ddylid ei osod fel llety gwyliau.
Cofrestr Gyhoeddus

**8. Materion Ariannol**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol o 1.9.2021 i 30.9.2021 ynghyd â Chysoniadau a Datganiadau Banc.

Cyfrif Cyfredol £22,147.16, Cyfrif Cadw £3,938.97



Arwyddwyd ………………………………………Cadeirydd.

**9. Taliadau i'w gwneud :**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog mis Medi | £243.61 | GMS Ground Services | £120 |

**10. Gohebiaeth - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

10.1 Rhybudd Cymunedol Gogledd Cymru

10.2 Ymgynghoriad: Strategaeth Dai 2022-2027 ac Arolwg Anghenion Tai
https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cymryd-rhan/Ymgynghoriadau/Ymgynghoriadau-cyfredol/Startegaeth-Dai-2022-i-2027-ymgynghoriad.aspx
Dyddiad cau 15.11.2021

10.3 Arolwg anghenion tai: https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cymryd-rhan/Ymgynghoriadau/Ymgynghoriadau-cyfredol/Arolwg-anghenion-tai.aspx
Dyddiad cau 15.11.2021

10.4 Newyddion Un Llais Cymru

10.5 Ymgynghoriad ar Ddiweddaru Trothwyon Enillion ar gyfer Adennill y Dreth Gyngor
https://llyw.cymru/trothwyon-incwm-ar-gyfer-gorchmynion-atafaelu-enillion

10.6 Ymgynghoriad Statudol Teithio Llesol CSYM - Llythyr Rhanddeiliaid
Dyddiad cau 30.11.2021

10.7 Sesiynau hyfforddiant o bell Un Llais Cymru.

10.8 Ymgynghoriad - drafft ar Bolisi Gamblo 2022 i 2025
https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cymryd-rhan/Ymgynghoriadau/Ymgynghoriadau-cyfredol/Datganiad-Drafft-o-Bolisi-Gamblo-2022-i-2025-ymgynghoriad.aspx

10.9 Ymgynghoriad Agored ar Ganllawiau Arfaethedig yn ymwneud ag "Egwyddorion Gweinyddu Da" a "Rheoli Cofnodion yn Dda".

10.10 Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2022
Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2022
|

**11. Adroddiadau Aelodau**

Roedd Cyng. Gwilym O. Jones wedi gwneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir ynghylch ymgynghori ar faterion trwyddedu. Dywedwyd wrtho fod eu gweithdrefn yn seiliedig ar ofynion Deddf Trwyddedu 2003 ac ni fyddent yn cysylltu â'r Cynghorau Cymuned, oherwydd nad oedd ganddynt ddyletswydd i wneud hynny. Mae dyletswydd ar yr



Arwyddwyd ………………………………………….Cadeirydd.

ymgeisydd i arddangos hysbysiad ar y safle am 28 diwrnod, a chyhoeddi hysbyseb mewn papur lleol, sy'n rhoi cyfle i unrhyw berson wneud sylwadau. Roeddent yn hysbysu'r Cynghorwyr Sir am y ceisiadau yn eu wardiau ac fe'u cyhoeddir ar wefan y Cyngor Sir.
Cytunwyd i ofyn iddynt gynnwys y Cynghorau Cymuned ar eu rhestr bostio.

**12. Cyfarfod Nesaf - 16 Tachwedd 2021**



Arwyddwyd ………………………………………Cadeirydd.